# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mai 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 206(v3)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

### Aelodaeth Pwyllgor (5 munud)

**NDM7049** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn dileu Gareth Bennett (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) fel Aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - E-chwaraeon

(60 munud)

**NDM7044** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr effaith gynyddol y mae'r diwydiant e-chwaraeon yn ei chael ar economïau lleol ledled y byd, megis twrnameintiau 2017 yn Valencia a Cologne a ddenodd rhwng 15,000 a 40,000 o gefnogwyr.

2. Yn nodi bod Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU yn cynnal ymchwiliad i archwilio'r potensial ar gyfer e-chwaraeon yn y DU, ymhlith tueddiadau eraill o ran technoleg.

3. Yn croesawu argymhellion adolygiad Bazalgette o'r diwydiannau creadigol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU, sy'n amlinellu argymhellion ar gyfer sut y gall y sector e-chwaraeon fod yn sail i dwf economaidd y DU yn y dyfodol, drwy:

a) godi statws e-chwaraeon gyda chystadlaethau a noddir gan y Llywodraeth, timau cenedlaethol, a sylw yn y cyfryngau; a

b) cynyddu buddsoddiad Llywodraeth y DU o £23.7 miliwn yn ychwanegol dros bum mlynedd i ymestyn rhaglenni datblygu lwyddiannus ac arloesol cronfa gemau'r DU a'r ' Transfuzer'.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) archwilio manteision economaidd posibl y diwydiant e-chwaraeon yng Nghymru;

b) ymgynghori â rhanddeiliaid addas i drefnu a chynnal cystadleuaeth ryngwladol e-chwaraeon yng Nghymru;

c) adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar gynnydd, erbyn 1 Hydref 2019.

Llywodraeth y DU - Department for Digital, Culture, Media and Sport - Independent Review of the Creative Industries - 22 Medi 2017 *(Saeneg yn unig)*

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1**- Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn nodi’r buddsoddiadau sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru a’i phartneriaid dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi helpu i greu sector Diwydiannau Creadigol ffyniannus yng Nghymru.

Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull trawslywodraethol o ehangu’r diwydiant e-chwaraeon yng Nghymru, gan gydnabod y ffaith y bydd y Sector Diwydiannau Creadigol yn cyfrannu’n sylweddol at ei lwyddiant.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru a’r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y diwydiannau creadigol fel bod modd iddynt fanteisio ar gyfleoedd newydd o fewn yr economi greadigol.

## 6 Dadl Plaid Cymru - Byrddau Iechyd

(60 munud)

**NDM7046** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi'r adroddiad Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Cwm Taf ar 30 Ebrill 2019.

2. Yn nodi bod pryderon mawr ynghylch ansawdd gofal a threfniadau llywodraethu byrddau iechyd hefyd wedi cael eu codi yn yr adroddiadau canlynol:

a) Ymddiried mewn Gofal: Adolygiad annibynnol o Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, 2014;

b) Ymchwiliad allanol Donna Ockenden i bryderon a godwyd ynghylch gofal a thriniaeth cleifion ar ward Tawel Fan, 2014; ac

c) Adolygiad Donna Ockenden o'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â gofalu am gleifion ar ward Tawel Fan, 2018.

3. Wedi colli hyder bellach yn y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol presennol yn Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r methiannau systemig a godwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mewn adroddiadau eraill.

Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Cwm Taf. 2019

Ymddiried mewn Gofal - Adolygiad annibynnol o Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. 2014

Donna Ockenden - ymchwiliad allanol i bryderon a godwyd ynghylch gofal a thriniaeth cleifion ar ward Tawel Fan. 2014 (Saesneg yn unig)

Donna Ockenden - adolygiad o'r trefniadau llywodraethu yn ymwneud â gofal cleifion ar ward Tawel Fan. 2018 (Saaesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn derbyn argymhellion yr adroddiad ac yn cydnabod y trallod a'r trawma a achoswyd i deuluoedd;

Yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau gwelliannau ar unwaith ac yn barhaus i wasanaethau mamolaeth cyn Fwrdd Iechyd Cwm Taf; ac

Yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i ganfod a mynd i'r afael ag unrhyw faterion llywodraethiant ehangach o fewn Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ac ar draws GIG Cymru.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Uno TATA Steel a ThyssenKrupp - Tynnwyd yn ôl

(0 munud)

**NDM7047** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod TATA Steel a ThyssenKrupp wedi cyhoeddi eu bwriad i werthu gwaith dur Trostre yn Llanelli fel rhan o fwriad i uno'r ddau gwmni.

2. Yn nodi ymhellach bod undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr yn ffatrïoedd TATA yng Nghymru wedi dweud nad ydynt bellach wedi'u hargyhoeddi mai uno yw'r opsiwn gorau i TATA Steel Europe a'u bod wedi mynegi pryderon nad partneriaeth gyfartal yw'r fenter ar y cyd, ac yn credu y gall penderfyniadau strategol yn y dyfodol flaenoriaethu buddiannau gweithrediadau ThyssenKrupp uwchlaw rhai TATA Steel Europe.

3. Yn nodi bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ei adolygiad o'r cytundeb cyd-fenter arfaethedig tan 17 Mehefin.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthwynebu'r uno fel y caiff ei gynnig ar hyn o bryd a gwneud sylwadau ar y sail honno i Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth y DU a Bwrdd TATA Steel Europe.

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig – Gweithio Gartref

(60 munud)

**NDM7045** **Gareth Bennett (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi y cynhelir Wythnos Genedlaethol Gwaith Doeth rhwng dydd Sul 12 Mai a dydd Sadwrn 18 Mai 2019.

2. Yn credu bod gweithio gartref yn rhoi mwy o hyblygrwydd ar gyfer cyfrifoldebau teuluol, a bod iddo fanteision ehangach hefyd, megis llai o draffig a llygredd, gwaith mwy hygyrch i bobl anabl, a chadw costau adeiladau yn isel i fusnesau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i gynnwys gweithio gartref yn y broses o gynllunio swyddi a recriwtio.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth benodol ar gyfer gweithio gartref o fewn y prosiect sy'n olynu Superfast Cymru, er mwyn sicrhau nad yw pobl sy'n dymuno gweithio gartref yn cael eu rhwystro gan ddiffyg mynediad at fand eang.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Rebecca Evans (Gwyr)

Ym mhwynt 4, dileu:

“ddatblygu strategaeth benodol ar gyfer gweithio gartref o fewn y prosiect sy'n olynu Superfast Cymru, er mwyn

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod yr Athro Sharon Clarke a Dr Lyn Holdsworth o Ysgol Fusnes Manceinion wedi datgan bod gweithwyr hyblyg, yn enwedig gweithwyr cartref, yn wynebu'r posibilrwydd o gynnydd mewn straen galwedigaethol o ganlyniad i ddwysáu gwaith, gwrthdaro â chyd-weithwyr, ac amharu ar lif gwybodaeth ac mae'n cydnabod yr angen i'r materion hyn gael eu hystyried wrth lunio polisïau yn y dyfodol.

Yr Athro Sharon Clarke a Dr Lyn Holdsworth, Flexibility in the Workplace: Implications of flexible work arrangements for individuals, teams and organisations. 2017 (Saesneg yn unig)

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7040** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Y frwydr am fand eang gwell

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Mai 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 30/04/2019 i'w hateb ar 08/05/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**1** OAQ53813

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus wledig yn Sir Gaerfyrddin?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**2** OAQ53806

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gostau teithio ar y rheilffordd yng nghanolbarth Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**3** OAQ53796

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ddatblygu busnesau ym Mharc Bryn Cegin, Bangor?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**4** OAQ53810

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng yr UE a Japan ar Gymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**5** OAQ53808

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella hyfforddiant sgiliau yng Nghymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

**6** OAQ53792

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Tasglu'r Cymoedd fel y mae'n effeithio ar Flaenau Gwent?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

7 OAQ53822

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng nghanol ardaloedd trefol yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

8 OAQ53820

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda swyddogion maes awyr Caerdydd ynghylch ehangu ei wasanaethau cludo nwyddau a'r ardal fusnes?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

9 OAQ53818

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd diweddar a wnaed o ran gwelliannau adran 5 a 6 yr A465?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

10 OAQ53804

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y difrod diweddar i reilffordd Dyffryn Conwy?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

11 OAQ53814

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi gogledd Môn?

# Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

1 OAQ53815

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynghylch dyfodol y gyfarwyddeb llosgi gwastraff ar ôl Brexit?

**Hefin David** *Caerffili*

2 OAQ53819

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyfredinol ddatganiad am ddosbarthu cymorth ariannol i fentrau yn y gymuned drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

3 OAQ53799

**(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi am bleidlais y bobl o ran ymadawiad y DU â'r UE?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

4 OAQ53800

**(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar weithredu'r penderfyniad a wnaed yn refferendwm yr UE?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OAQ53812

**(e)**

Pa gamau y mae'r Cwnsler Cyffredinol yn eu cymryd i weithio gyda phob awdurdod lleol ledled Cymru i baratoi am Brexit heb gytundeb?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

6 OAQ53805

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad o effeithiau posibl Brexit ar gadwyni cyflenwi yng Nghymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

7 OAQ53802

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am Gronfa Bontio'r UE?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OAQ53811

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch effaith Brexit ar GIG Cymru?